# Mali Mwynhau

Un diwrnod oer a gwlyb. Roedd Mali ar ei ffordd i'r ysgol. Newydd gychwyn blwyddyn 2 yn Ysgol Terrig oedd Mali. Y bore hwnnw roedd Mali mor gyffroes oherwydd roedd hi'n ddydd Mawrth a phob bore dydd Mawrth roedd Mali yn derbyn gwersi addysg gorfforol.

Yn ystod y bore dechreuodd glawio tu allan. Dywedodd yr athrawes, "yn anffodus oherwydd y tywydd fydd na ddim addysg gorfforol bore 'ma. Yn hytrach fe fydd rhaid i bawb wneud gwaith ysgrifennu." Roedd Mali a phawb yn y dosbarth yn drist. Er hyn penderfynodd Mali drio ei gorau glas i ysgrifennu stori bendigedig. Sylweddolodd Mali fod hi'n mwynhau'r dasg ysgrifennu. Edrychodd Mali ar weddill plant yn y dosbarth. Roedd llawer ohonyn nhw wedi penderfynu aros yn drist trwy'r bore a pheidio â trio. Wrth wenu sylweddolodd Mali os dwi'n hapus dwi'n mwynhau dysgu.

Yn y prynhawn roedd y glaw wedi diflannu a chafodd Mali hwyl yn chwarae gyda phêl yn ystod y wers addysg gorfforol. "Am ddiwrnod bendigedig!" meddyliodd Mali.